

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	25 Mehefin 2013
Aelod / Swyddog Arweiniol	Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol Oedolion a Gwasanaethau Plant / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes
Awdur yr Adroddiad :	Rheolwr y Gwasanaeth Ardal y De
Teitl:	Partneriaeth Iechyd Meddwl

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yn cael eu darparu ar hyn o bryd i ddinasyddion Sir Ddinbych drwy Bartneriaeth Iechyd Meddwl i Oedolion Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r trefniant ac yn gofyn i'r Cabinet ystyried a chytuno ar y bartneriaeth newydd rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r un amrediad o wasanaethau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd trefniant y bartneriaeth gyfredol yn dod i ben 3 Gorffennaf 2013, ac mae angen i'r Cabinet wneud penderfyniad i ganiatáu y cytunir ar drefniant partneriaeth newydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Argymhellir y bydd Partneriaeth Iechyd Meddwl a Gofal Cymdeithasol i Oedolion Conwy a Sir Ddinbych yn dod i ben 3 Gorffennaf 2013.
- 3.2 Fel awdurdod, ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r model a ddatblygwyd yn wreiddiol wrth greu'r Bartneriaeth, ond y dylid adlewyrchu hyn rŵan mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

4. Manylion am yr adroddiad

- 4.1 Sefydlwyd Partneriaeth Iechyd Meddwl a Gofal Cymdeithasol i Oedolion Conwy a Sir Ddinbych (Y Bartneriaeth) 4 Gorffennaf 2005 am gyfnod o bedair blynedd yn y lle cyntaf, ac fe gafodd ei ymestyn 4 Gorffennaf 2009 am gyfnod o bedair blynedd arall, sy'n dod i ben 3 Gorffennaf 2013.
- 4.2 Gwnaeth y Bartneriaeth ddwyn at ei gilydd y gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych ar y pryd ynghyd, yn ogystal â gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer y grŵp defnyddwyr gwasanaeth hwn yn un strwythur sefydliadol integredig.

Cynhaliwyd y Bartneriaeth gan iechyd fel asiantaeth arweiniol darparu gwasanaeth iechyd meddwl.

- 4.3 Crëwyd ac ategwyd y Bartneriaeth gan gytundeb cyfreithiol ffurfiol o dan yr hyn a oedd yn A31 Deddf Iechyd Meddwl 1999 ar y pryd (a ddaeth yn gytundeb A33 yn ddiweddarach). Secondiwyd y staff a gyflogwyd gan bob un o'r tri phartner hyn yn y bartneriaeth newydd, er iddynt barhau i gael eu cyflogi gan eu cyflogwr gwreiddiol yn ogystal â chael eu llywodraethu gan delerau ac amodau'r cyflogwr gwreiddiol. Rydym eisoes wedi ysgrifennu at ein holl staff yn nodi y bydd y Bartneriaeth yn dod i ben yn ffurfiol 3 Gorffennaf 2013, ond ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar weithrediad o ddydd i ddydd y gwasanaeth, neu amodau eu cyflogaeth.
- 4.4 Fe wnaeth Cytundeb y Bartneriaeth ddarparu ar gyfer cytuno ynghylch polisïau a threfnau cyffredin ar draws y gwasanaeth; sicrhau y byddai'r model integredig yn cyflawni holl gyfrifoldebau statudol yr asiantaethau partner; gwella'r cysylltiadau gweithredol; lleihau dyblygu a gwella cydlyniant y gwasanaethau; sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid wedi cyfranogi'n llawn wrth wneud penderfyniad mewn perthynas â chynllunio a datblygu gwasanaethau, ac wedi adlewyrchu'r argymhellion a'r arweiniad a oedd yn berthnasol ar yr adeg honno i'r maes gwasanaeth hwn. Mae copi wedi'i sganio o'r adroddiad gwreiddiol i'r Cabinet yn Chwefror 2005, ynghyd â Phapur Briffio'r Cabinet o'r un pryd wedi'u hatodi fel atodiad 1 a 2 er gwybodaeth.
- 4.5 Mae'r newidiadau a ddeilliodd o greu Prifysgol Betsi Cadwaladr a datblygu model y Grŵp Rhaglen Clinigol sy'n rheoli gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ar draws gogledd Cymru wedi'u gwneud hi'n gynyddol anodd i reoli'r bartneriaeth gyfredol, ochr yn ochr â threfniadau mewn man arall yn y CPG ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng ngweddill dalgylch Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd hyn, ynghyd â'r gofyniad i ymateb i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, wedi cymell adolygiad o'r trefniadau cyfredol mewn perthynas â'r Bartneriaeth yn Sir Ddinbych.
- 4.6 Mae sawl egwyddor a gadwyd mewn cof a arweiniodd at greu partneriaeth yn ategu'r Mesur sydd rŵan yn gweld gwasanaethau iechyd meddwl yn Sir Ddinbych yn cael eu rheoli o dan un strwythur rheoli integredig sydd yn ei hanfod, yr un peth â threfniant y Bartneriaeth. O safbwynt Sir Ddinbych, mae'r trefniant hwn yn parhau i gael dylanwad gofal cymdeithasol cryf ac rydym yn ffodus bod Rheolwr Sir Ddinbych yn dod o gefndir gofal cymdeithasol. Yr unigolyn hwn sy'n gyfrifol am reoli pob ymarferydd iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol o fewn gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion yn Sir Ddinbych.
- 4.7 Egwyddor allweddol o'r gwaith a wnaed i ddatblygu'r trefniant Bartneriaeth wreiddiol oedd cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'r sector gwirfoddol. Er nad ydyw rhai o'r trefniadau hyn wedi bod mor gadarn ag yr oeddem yn ei ddymuno dros y misoedd diwethaf, rydym ni, â'n partneriaid iechyd yn ymroddedig i ddatblygu swyddogaeth y grwpiau hyn ymhellach wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.

- 4.8 Ni fydd diweddu'r Bartneriaeth gyfredol a chreu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr yn cael unrhyw effaith ar ddarparu gwasanaeth. Bydd staff yn parhau i gael eu cydleoli ochr yn ochr â chydweithwyr iechyd, a gweithio mewn dull integredig sy'n hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl modern.
- 4.9 Mae rhaglen Rheoli Perfformiad ar lefel genedlaethol, gorfforaethol ac yn benodol i wasanaeth wedi tyfu'n sylweddol ers datblygu'r cytundeb partneriaeth gwreiddiol. Er bod y meysydd hyn yn cael eu cyfeirio atynt yn y cytundeb cyfredol, nid yw'r gofynion yn benodol nac yn gadarn o ran gofyn i iechyd, fel yr asiantaeth gynhaliol, i'n darparu ni gydag adroddiadau manwl a phrydlon. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn eglurach yn y cyswllt hwn, a bydd yn gofyn i Brifysgol Betsi Cadwaladr i'n darparu ni gyda'r wybodaeth hanfodol fel rhan o broses sy'n fwy prydlon a rheolaidd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad hwn yn cefnogi'r angen i sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl, a hefyd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fydd gan y penderfyniad hwn unrhyw effaith ariannol ar yr awdurdod, a bydd yn cael ei ddarparu o fewn darpariaeth y gyllideb bresennol. Ni ddisgwylir y bydd yn effeithio ar feysydd eraill o ddarpariaeth gwasanaeth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Nid oes angen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb fel y manylir yn y templed amgaeedig yn Atodiad 3 o'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Trafodwyd y cynigion gyda staff allweddol a gynhwysir yn y Bartneriaeth, a bydd yn cael eu trafod yn ffurfiol gyda Phrifysgol Betsi Cadwaladr ar Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych 14 Mehefin 2013. Rhoddir gwybod i'r Cabinet os bydd unrhyw faterion penodol yn deillio o'r cyfarfod.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni ddylai goblygiadau ariannol godi yn sgîl y newid i'r cytundeb gyfreithiol, ond dylid cadw golwg fanwl ar hyn. Dylid gwirio'r trefniadau llywodraethu i sicrhau fod unrhyw bwerau dirprwyedig a ganiatawyd o dan y gytundeb flaenorol yn parhau i fod yn ddilys wrth symud ymlaen.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r penderfyniad, fodd bynnag, pe na fyddai'r Cabinet yn cytuno i gynnal y model integredig o ddarparu gwasanaeth, yna byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, sydd ar gael yn Sir Ddinbych.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad